Llyfr Gwersg



AD LRC
olfan Adnoddau Dysgu
rning Resources Centre

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn y DU dan yr enw 'Babies and Young Children: Diploma in Child Care and Education' gan
Nelson Thornes Limited
Delta Place
27 Bath Road
Cheltenham
GL53 7TH

Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn gan Wasg UWIC
UWIC, Heol Cyncoed, Caerdydd CF23 6XD
cgrove@uwic.ac.uk
029 2041 6515
a dderbyniodd hawliau unigryw

ISBN 978-1-905617-29-6

Noddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol
ⓗ Sian Owen ac Elen Evans 2007
Darluniau gwreiddiol ⓗ Nelson Thornes 2001

Cyfieithwyd gan Sian Owen
Golygwyd gan Elen Evans
Cysodwyd gan Andy Dark
Ymchwil lluniau gan Sue Charles
Argraffwyd gan 4word Page & Print Production

Mae'r defnyddiau hyn dan hawlfraint ac ni ellir eu hatgynhyrchu na'u cyhoeddi heb ganiatâd perchnogion yr hawlfraint.

305
231
BAB

Erthygl Cyfnodolyn Academaidd

RESEARCH ARTICLES (WELSH)

Adolygiad Systematig o Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu Plant 5-8 oed: Y Goblygiadau i Gymru a Thu Hwnt

AUTHORS

Anwen Rhys Jones, Emma Tiesteel and Catherine Storey

A- A+ Dyslexia

Abstract

Yn ystod y pandemig COVID-19, collodd nifer o blant fynediad at amgylcheddau gofal cyfoethog eu hiaith a ddarperid gan bobl ar wahân i rieni – amgylcheddau sy'n hollbwysig ar gyfer datblygiad iaith gynnar. Mae'r plant hyn bellach yn 5-8 oed, mewn addysg amser llawn, ac ychydig iawn a ddeellir am yr effeithiau y gall anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu eu cael ar eu llesiant, eu hannibyniaeth yn yr ysgol a'u cynnydd yn gyffredinol. Nod yr adolygiad hwn oedd cyfuno tystiolaeth a fodolai eisoes ynglŷn â chyffredinrwydd anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu a materion llesiant plant ymhlith 5-8 oed, gyda'r dystiolaeth honno'n deillio o ymchwil a gyhoeddwyd ers y pandemig. Yn benodol, roedd yr adolygiad yn awyddus i archwilio'r dystiolaeth ryngwladol sydd ar gael ynghyd ag ystyried sut mae Cymru yn cymharu pan fo modd, gan gydnabod ar yr un pryd bod data cymaradwy yn gyfyngedig. Ymhellach, roedd yr adolygiad yn ceisio nodi ymyriadau ac offer asesu penodol a ddefnyddir i ategu anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu plant 5-8 oed a'u llesiant dilynol. Cadwodd yr adolygiad systemig at y fframwaith PRISMA a defnyddiwyd y fframwaith PICO i lywio'r cwestiynau ymchwil a'r strategaeth chwilio. Defnyddiwyd yr Offeryn Arfarnu Dull Cymysg (MMAT) a Rhestr Wirio JBI ar gyfer Arfarnu Beirniadol i werthuso'r astudiaethau a gynhwyswyd. Ar ôl cymhwyso'r meini prawf cynnwys, cafodd 12 papur eu cynnwys yn yr adolygiad. Oherwydd natur heterogenaidd yr astudiaethau, mabwysiadwyd synthesis naratif i'w ddadansoddi. Dangosodd y canfyddiadau fod y maes ymchwil yn gyfyngedig o ran dull cyson o ymdrin ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu a materion llesiant ar gyfer y grŵp oedran hwn. Er bod y canlyniadau'n dangos bod cysylltiadau clir rhwng Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu plant a'u llesiant, nid oes unrhyw safon gyffredinol ar gyfer asesu anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu ac ni ddaethpwyd o hyd i astudiaethau ymyrraeth penodol yn ymwneud â datblygiad iaith ar gyfer y boblogaeth hon. Dangosodd y canfyddiadau fod mynediad at wasanaethau, argaeledd adnoddau, a ffactorau economaidd-gymdeithasol yn dylanwadu'n fawr ar adnabod a rheoli anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu.

SHARE

https://doi.org/10.16922/wj Copy

AUTHOR DETAILS

Anwen Rhys Jones
Bangor University

Emma Tiesteel
Bangor University

Catherine Storey
Bangor University

DOWNLOADS

Download PDF

View PDF

ISSUES

Primary: Volume 28 · Issue 1 · 2026

Collection: Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebiad / Language, Literacy and Communication

Tudalen we (defnyddiwch y cod QR i gael mynediad i'r dudalen we)